CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod rhithwir o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd trwy cynhadledd Zoom, Nos Fawrth, 9fed MAWRTH 2021.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Mrs Sharon Barton, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Jeff Hughes, Mr Selwyn Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc). **Hefyd:** Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen.

2 YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth Cynghorydd Mrs Arianwen Owen, Mr Myfyr Davies & Mr Gareth Evans. **Hefyd:** Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers.

3 CROESO

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB

4.1 Nid oedd neb yn Datgan Diddordeb.

5 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad byr ar lafar oddiwrth Cynghorydd Sirol, Mr Bryan Owen ar y materion canlynol:

5.1 Cadarnhad fod Cyngor Sir Ynys Mon wedi gosod y cyllideb ac wedi codi 2.75% yn y dreth.

5.2 Sefyllfa a stadegau presennol COFID19 ac fod marwolaethau draws yr Ynys yn ddrwg. Roedd materion wedi tawelu bellach ac fod canolfannau leol yn symud ymlaen gyda gweinyddu'r frechlyn. Search hynny, rhannwyd pryderon fod ymwelwyr wedi dechrau ymweld a'r pentref ac o gwmpas yn groes i rheoliadau a canllawiau Llywodraeth Cymru gofyn monitor y sefyllfa.

6 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

6.1 Parhau i ddisgwyl mwy o ddatblygiad ynglyn a dyfodol y Ganolfan.

Arwyddo……..

6.2 Rhannwyd pryderon a cytuno nad oedd cyflwr presennol yr adeilad yn addas ar gyfer ei ddefnyddio fel Gorsaf Pleidleisio i'r Etholiad yn Mis Mai 2021. Nodwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir fydd glanhau a darparu'r safle.
PENDERFYNIAD: Cynghorwr Andrew Hughes i gysylltu gyda CSYM ac adrodd yn nôl i'r Cadeirydd, Clerc a Cynghorwr Sirol Mt Bryan Owen

7 Cywiro & Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfodydd.

7.1 Cyfarfod Misol 12/01/2021 – yn dilyn cywiro fod Cynghorwr Gareth Evans wedi ymuno'r cyfarfod yn hwyr, **cynnig (AH), eilio (TO) ei bod yn rhai cywir.**

8 Cadarnhau Taliadau & Derbyniadau.

Cytunwyd aelodau gyda talu rhestr llawn o'r taliadau a derbyniadau y Cyngor fel y ganlyn - Cynnig (AH) & Eilio (DJ):

Taliadau:

8.1	Mr J A Foulkes – Cyflog Clerc – Ionawr > Mawrth 2021	£772.80
8.2	HMRC – PAYE	£193.20
8.3	Cyfraniad – Canolfan Bodorgan (s19/LGA1976)	£16,000.00
	Derbyniadau:	
8.4	HMRC – Ad-Daliad TAW	£438.76
8.5	Ffioedd Claddu Llwch – Diweddar Stanley Lloyd Thomas	£240.00

9 Cysoni Mantolen Banc hyd at 28.2.2021:

CYSONI BANC	2020 / 2021
Gweddill 1af Ionawr 2021	£ 23,689.36
DERBYNIADAU	£ 438.76
Llai TALIADAU	-£ 17,203.90
GWEDDILL 28 Chwefror 2021.	£ 6,924.22
BALANS CYFRIFON BANC	**2020 / 2021**
Cyfrif Cyfredol	£ 24,128.12
Llai Siec Heb Cyflwyno	- £ 17,203.90
CYFANSWM	£ 6,924.22

10 Materion Mynwent Trefdraeth

10.1 Nid oedd y Clerc wedi cael cyfle trefnu yr Archwiliad Coed o amgylch terfyn y Fynwent.
Penderfyniad: Atal cytundeb amcangyfrif a dderbyniwyd oddiwrth Mr Les Thomas (£200) am waith cynnal a chadw am y tro a hefyd gofyn i'r Clerc trefnu fod gwrychod o amgylch y fynwent newydd yn cael ei dacluso.

Arwyddo……..

10.2 **Safle Claddu Llwch** – adroddiad y Clerc nad oedd safle wedi ei ddynodi ar gyfer claddu llwch yn y Fynwent newydd yn unol a'r trefniadau gwreiddiol ac eu bod yn cymeryd safle newydd mewn rhesi beddi.
Penderfyniad: Aelodau yn unfrydol y dylai dynode safle ar wahan yn dechrau ochor chwith i'r fynwent ger yr Hysbysfwrdd a gofyn gosod marciwr priodol.

11 Ceisiadau Cynllunio Newydd.

11.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn cynnwys balconi yn: **Hen Parc Glas, Bethel** – Rhif Cais: HHP/2021/18 – **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

11.2 Adleoliad gwrych ar dir yn: **Feisdon,Bodorgan – Rhif Cais: HR/2021/1 – DIM GWRTHWYNEBIAD**

12 Penderfyniad Ceisiadau Cynllunio.

12.1 Adleoliad gwrych ar dir yn: **Feisdon,Bodorgan – Rhif Cais: HR/2021/1 – CANIATÂD.**

13 Gosod Gorsaf Sylfaen Arfaethedig - DNS Llangadwaldr, Bodorgan, Ynys Môn, LL62 5LU.

13.1 Nodwyd fod yno dryswch ynglyn pa safle oedd dan sylw gan fod Cyngor Cymuned Aberffraw wedi trafod cais tebyg yn Bwlan ac na fydd unrhyw fuddiant cymunedol o dan Adran 106 ar gael.

14 Gohebiaeth

Dosbarthwyd y gohebiaeth er gwybodaeth yn unig:

14.1 Datganiad y Cyngor Sir - Gwasanaeth Tai i adeiladu ar gynnydd rhagorol.

14.2 **Datganiad y Cyngor Sir - 'Byddwn yn gwneud yr hyn sydd orau i Ysgolion Môn', meddai Arweinydd y Cyngor.**

14.3 **Datganiad y Cyngor Sir - Disgyblion i aros adref wrth i raddfa heintio Môn fod yr uchaf yng Nghymru.**

Arwyddo……

14.4 Datganiad y Cyngor Sir - Cynllun Bioamrywiaeth newydd er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

14.5 Datganiad y Cyngor Sir - Arweinydd y Cyngor yn cefnogi'r alwad i amddiffyn Porthladdoedd Cymru.

14.6 Diweddariad Mesurau Rheoli Traffig ym Mhorthladd Caergybi.

14.7 Ffi Blynyddol ar gyfer casglu gwastraff gardd gwyrdd.

14.8 Sbwriel & Thipio Anghyfreithlon i Gymru.

14.9 Newyddlen Etholiadau.

14.10 Cyrsiau Un Llais Cymru Mawrth 2021.

14.11 Datganiad - Cerbydau Graeanu newydd yn profi eu gwerth y Gaeaf hwn.

15 Materion Gweinyddu.

15.1 Clerc yn cadarnhau ei fod am aros am flwyddyn arall hyd at Mis Mai 2022.

15.2 Cadeirydd hefyd yn cadarnhau ei fod yn fodlon aros am yr un cyfnod.

16 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS MAI 2021 (18/05/2021).

16.1 Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu. Fe clowyd y cyfarfod am 7:50yh.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.